Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 474 MAI 2025 | AM DDIM

## DATHLIAD DYDD GŴYL DEWI YN SOUTHGATE

-MARTIN JONES

Ar 4ydd o Fawrth (3 diwrnod yn hwyr, rydw i'n gwybod, ond yr amser gorau i bawb yn y grŵp), daeth 16 ohonon ni gyda'n gilydd yn siop coffi'r Tri Chlogwyn i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Mae perchennog y siop coffi'n gefnogwr selog o'r iaith Gymraeg ac mae'r grŵp wastad wedi cael croeso cynnes. Y tro 'ma, roedd y croeso'n arbennig o hael - dau fwrdd wedi'u gosod â llwyth o bicau ar y maen, bara brith, a "rarebits" bychain, a phopeth yn flasus iawn. Roedd rhai ohonon ni'n difaru ein bod ni wedi cael cinio cyn dod allan!

Ar ôl awr o sgwrsio - popeth yn Gymraeg wrth gwrs - roedd hi'n amser i'r cwis. Dim ond 10 cwestion, pob un yn ymwneud â phethau Cymreig, a phobl yn gweithio mewn parau. Llongyfarchiadau i Val a Chris a sgoriodd 8 i ennill y wobr gyntaf, sef paced o fisgedi Cymreig teisen Berffro ar ffurf cragen fylchog yr un. A llongyfarchiadau hefyd i Ann a Karen a ddaeth yn ail (gyda sgôr o 7) i ennill paced o siocled Cymreig yr un.

Ni allwch chi ddathlu Dydd Gŵyl Dewi heb dipyn o ganu, a dyna sut daethon ni â'r prynhawn i ben. (Diolch i Rob Evans am y taflenni caneuon.) Roedd pawb yn canu'n dda - gan gynnwys grŵp o fenywod oedd yn eistedd wrth y bwrdd nesaf aton ni. Mae hyn yn dangos y pwysigrwydd o ddefnyddio'r iaith ar goedd - mae'n ffordd dda o gwrdd â siaradwyr Cymraeg eraill, siaradwyr rhugl a dysgwyr fel ei gilydd. Ac mae'n dangos i bobl nad ydy'r iaith ar farw ond ei bod hi'n fyw ac yn ffynnu, hyd yn oed mewn ardaloedd Saesneg.



## CYMDEITHAS GYMRAEG TREFORYS A'R CYLCH

-GARETH RICHARDS

Sgwrs hynod ddiddorol a dadlenol Steffan Phillips gafwyd ddiwedd Ebrill. Mae Steffan, sy'n Eiriolwr Iechyd Meddwl, wedi ymgartrefu yn Nhreforys ers blynyddoedd ac yna mae gwreiddiau ei deulu ar ochr ei dad, y diweddar Dewi Z. Phillips.

Bu'n ymchwilio i hanes Celtic Studios a leolwyd yn Nhreforys, y cwmni cyntaf yng Nghymru i greu a chynhyrchu gwydr lliw. Sefydlwyd yn 1948 gan Howard Martin (1907-72) a'i gefnder Hubert Thomas (1913-95), er iddynt gyd-weithio yn y 1930au.

Bu Howard Martin yn bennaeth ar yr adran wydr lliw pensaerniol yn Swansea School of Arts and Crafts.
Bu'r cwmni yn gyfrifol am greu dros 650 o ffenestri lliw, nifer ohonynt yn Nhreforys, Abertawe a de Cymru ond mae rhai yng ngogledd Cymru, Lloegr a Gogledd America. Serch hynny allforiwyd trydydd o'u cynnyrch i Ganada lle mae'r gweithiau gorau. Mae gweithiau Bryan Tobias Evans, a fu'n grefftwr yn Celtic Studio rhwng 1949 a 1991 yn gywrain iawn.

Diolchwyd i Steffan am ei gyflwyniad ardderchog a'r arddangosfa o luniau trawiadol gan Eirian Wyn, Llywydd y Gymdeithas a Rhian Williams. Roedd yn dda cael hanes y crefftwyr arbennig yma fu'n creu campweithiau yn Nhreforys.

Braf oedd cael cwmni David Gwyn John, Ysgrifennydd y Gymdeithas wedi ei anhwylder diweddar. Pob dymuniad da David.

"Gwroldeb, Aberth, Gwobr" : Ffenestr liw Seion Newydd, Treforys i goffau'r Ddau Ryfel Byd. Un o nifer o weithiau safonol 'Celtic Studios' sydd wedi ei leoli yn Nhreforys.
Edrychwn ymlaen at ymweliad Brieg Powel, Prifysgol Caerwysg i'n cyfarfod ar nos Iau, 15 Mai yn y Tabernacl, Treforys. Mae Brieg yn gyfrannwr rheolaidd ar Radio Cymru ar faterion rhyngwladol yn enwedig, yn y cyfnod diweddar, ar y rhyfeloedd yn Wcráin a Gasa. Edrychwn ymlaen, yn fawr, at ei gyflwyniad.

Mae Brieg, yn enedigol o Dreforys ac yn fab i Robat a'r ddiweddar Sheila Powell.





## CÔR PLANT WAUNARLWYDD YN DATHLU 60

Sefydlwyd y côr yn 1965 gan Davida Lewis ac eraill. Davida Lewis oedd yr arweinydd a chafwyd cefnogaeth y gymuned. Bu'r côr yn cystadlu'n gyson mewn eisteddfodau lleol, Gwyl y Glowyr Porthcawl a Gwyl Fawr Aberteifi. Bu'r côr yn teithio'r cyfandir yn gyson gan gynnwys yr Almaen.

Meibion i David yw Rhodri a Berian Lewis. Mae Berian yn dal yn arweinydd a chyfeilydd i nifer o gorau lleol. Plant bach oedden nhw yn nyddiau cynnar y côr ond daethon nhw'n aelodau o'r côr yn fuan.

Pum mlynedd yn ddiweddarach ffurfiwyd Côr oedolion Waunarlwydd, sy'n dal i ganu.

Yn ystod y 70au a'r 80au rhoddodd y côr fywyd cymdeithasol Cymraeg i lu o bobl ifanc yr ardal.

Ar y 4ydd o Fai bydd y côr yn canu yn Llundain yng nhapel Rob Nicholls.

Emily Weston yw arweinydd y côr erbyn hyn ond mae Davida Lewis, fu'n bennaeth Ysgol Waunarlwydd, yn dal yn y Côr oedolion.

Bydd y côr yn cynnal cyngerdd dathlu 60 yn Waunarlwydd ar Fehefin 30. Mae'r côr oedolion yn cwrdd ar nosweithiau Mawrth a'r côr plant nos Wener. Er bod nifer o'r oedolion yn awr yn ddi-Gymraeg, mae'r côr yn canu llawer yn y Gymraeg ac yn cyfrannu at Gymreictod yr ardal braf hon o Abertawe.

Emily Weston yw arweinydd y côr erbyn hyn ond mae Davida Lewis, fu'n bennaeth Ysgol Waunarlwydd, yn dal yn y Côr oedolion.

Bydd y côr yn cynnal cyngerdd dathlu 60 yn Waunarlwydd ar Fehefin 30. Mae'r côr oedolion yn cwrdd ar nosweithiau Mawrth a'r côr plant nos Wener. Er bod nifer o'r oedolion yn awr yn ddi-Gymraeg, mae'r côr yn canu llawer yn y Gymraeg ac yn cyfrannu at Gymreictod yr ardal braf hon o Abertawe.



## BYD NATUR
-PATRICK SOPER



Clustog Mair

Mae mis Mai yn ein gosod ar drothwy'r haf, gyda llawer o flodau gwyllt o'n cwmpas i'w hedmygu. Dyma dri sy'n lluosflwydd brodorol:

Yn debyg iawn i flodyn menyn yw gold y gors, gyda'i dail cnawdol gwyrdd tywyll a'i flodau melyn trawiadol mawr. Mae e'n ffynnu mewn lleoedd llaid a chorsog megis coetiroedd a glannau afon. Byddwch chi yn eu gweld fel arfer yn ffurfio grwpiau mawr, ac yn cyrraedd rhyw deg modfedd o uchder.



Gold y Gors

Roedd pobl ar Ynys Manaw yn cyfrif gold y gors - eu bod yn eu galw'n 'Blodau Mai' - yn rhagargoel dda i'r dyfodol, a byddai'r ynyswyr yn gadael ychydig o flodau hyn ar garreg drws eu cymdogion i ddod â phob lwc iddyn nhw.

Ar led yw clustog Fair yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd arfordirol. Rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf gellir cael hyd iddyn nhw mewn grwpiau mawr o flodau pinc gyda phersawr mêl sydd tua thri chwarter modfedd ar eu traws. Mae'r blodau hyn yn tueddu i aros am hir ac mae arnyn nhw olwg da mewn trefniadau blodau.

Portreadwyd clustog Fair ar ddarnau tair ceiniog (3d) a gafodd eu bathu rhwng 1937 - 1953.'Thrift' yw ei enw yn Saesneg ac efallai defnyddiwyd y darlun hwn er mwyn ein hatgoffa o angen bod yn ddiwastraff, wrth feddwl am brinder popeth oherwydd y rhyfel.




Ond y gwir reswm dros yr enw Saesneg yw bod y planhigyn hwn yn gallu ffynnu hyd yn oed mewn pridd gwael. Mae gynnon ni glustog Fair ledled Cymru, a blodyn sirol sir Benfro yw ef.

Aelod teulu pysen, mae plucen felen yn flodyn gwyllt gyfarwydd yn ardaloedd arfordirol, yn enwedig ar bridd calchog, yn cyrraedd rhyw ddeuddeg modfedd o daldra.Melyn yw'r blodau fel arfer ond weithiau yn goch, porffor neu lwydwyn ac, i'w gweld o bellter, mae ganddynt olwg 'ewynnog', bron.

Mae'r blodau hyn mewn siâp aren, yn fras, ac arferid credu y gallen nhw drin anhwylderau arennau. **Tarddle ardderchog neithdar yw plucen felen, ond yn unig i gacwn a phryfed eraill sy'n ddigon cryf i orfodi'r petalau i agor.**



Plucen Felen

Ac mae'r glesyn bach yn hoff iawn o'r planhigyn hwn - dyma'r lle delfrydol i ddodwy ei hwyau oherwydd bydd y lindys yn bwydo arno.

## DYSGWYR – CHWARAE TEG IDDYN NHW!

**-ROB EVANS**

Sut yw'r sefyllfa efo'ch cymdeithas, cynulleidfa eich capel neu eich eglwys, a yw'r aelodaeth yn mynd i lawr? Ydych chi'n dibynnu ar ffrindiau agos pan dach chi eisiau sgwrs yn Gymraeg neu ydych chi'n cyfarfod Cymry Cymraeg newydd trwy'r amser? Ydych chi'n teimlo bod yr iaith angen chwistrell o adrenalin?

Gadewch i mi ddweud dipyn am Gymdeithas Cymraeg Llandeilo Ferwallt, roedd y gymdeithas wedi cael dipyn o gnoc ar ôl Cofid fel pob cymdeithas ond, erbyn hyn mae'r aelodaeth mor gryf ag erioed. Beth yw'r gyfrinach? Nid nepell o'r neuadd ble maen nhw'n cyfarfod mae dau grŵp o ddysgwyr, un yn Southgate ac un yn Newton ac mae trefnwyr y ddau yn aelodau o'r gymdeithas felly mae'r cysylltiad yn gryf. Wrth i'r grwpiau dyfu, ac maen nhw, mae'r gymdeithas yn ffynnu. Mae mor syml â hynny.

Mae angen ar y ddwy ochr, y Gymdeithas eisiau aelodau a'r dysgwyr eisiau agoriad i'r iaith, wrth wneud y cysylltiad mae pawb yn elwa. Felly os dach chi'n cael trafferth gwnewch gysylltiad efo'r dysgwyr. Ond ble maen nhw? Mae rhestr ar wefan Y Wennol www.wennol.cymru neu cysylltwch â'r Fenter Iaith yn Nhŷ Tawe.

Mae cyhoeddi'r Wennol dros y pum mlynedd diwethaf wedi agor fy llygaid i frwdfrydedd dysgwyr. Nid peth hawdd yw dysgu iaith newydd ac unwaith maen nhw wedi cyrraedd ryw bwynt yn y siwrne mae angen iddyn nhw gael y cyfle i siarad yr iaith. Wrth wneud hynny efo Gymry amyneddgar a chydymdeimladol maen nhw'n datblygu hyder ac eisiau mynd yn bellach. Helpwch nhw i wneud hynny.

Mae'r Wennol yn mynd allan i ddysgwyr dros y wlad, dros y deyrnas a dros y byd. Byddech chi'n synnu faint o ddysgwyr tu allan i Gymru sydd yn dysgu Cymraeg ond beth yw'r pwynt pan maen nhw'n byw tu allan i'r wlad? Pa wahaniaeth bydden nhw'n gwneud i'r ffigurau yn y cyfrifiad nesaf? Dim, wrth gwrs ond mae'n dangos lawer o barch i'r iaith Gymraeg a phan nad yw'r iaith yn cael llawer o barch yma yng Nghymru mae hynny'n codi eich calon.

A sut mae rhywun o wledydd pell yn mynd i ddysgu Cymraeg o safon? Dydw i ddim yn gwybod ond yn sicr maen nhw. Dwi'n cael llawer o straeon oddi wrthyn nhw, straeon diddorol wedi eu hysgrifennu'n dda a phob mis mae'r straeon yma yn helpu fi lenwi 16 dudalen mewn pob rhifyn.

Dysgwyr sydd yn ysgrifennu'r straeon yn y Wennol a dros y pum mlynedd mae tua 240 wedi cyfrannu. Dim ond mil o bobl sydd ar y rhestr felly mae chwarter ohonyn nhw wedi cyfrannu a'u hymdrechion nhw sydd wedi galluogi fi i greu cylchgrawn pwysig iawn i ddysgwyr.

Mae dysgwyr yn llawn brwdfrydedd ac yn barod i gyfrannu at gryfder sefyllfa'r iaith – gwnewch y cysylltiad â nhw, byddech chi byth yn difaru.

Ac yn dilyn yr erthygl yma dyma esiampl o gynnyrch dysgwr sydd wedi dysgu tu allan i Gymru. Dw i'n siŵr byddech chi'n cytuno, ble bynnag mae dysgwyr yn byw mae eu hymdrechion yn haeddu clod.
Maen nhw'n bwysig i'r iaith hefyd!

## KEVIN BEAVERSTOCK

Helo Pawb, Cef (Kev) dw i. Dw i'n dod o Gymru'n wreiddiol, ond dw i wedi treulio llawer o fy amser yn Nyfnaint yn y tri deg mlynedd diwethaf. Ces fi fy ngeni a'm magu ym Mhorthcawl yn Ne Cymru.

Roedd y teulu yn ein tŷ ni ym Mhorthcawl yn gymysgedd o Gymry Cymraeg a Saesneg. Roedd fy mam-gu a thad-cu yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, ond wnaethon nhw byth drosglwyddo'r iaith i Mam yn anffodus. Bydden nhw'n gwrthod ein hateb ni pan oedden ni'n ceisio siarad gyda nhw gyda'r Gymraeg roedden ni wedi'i dysgu yn yr ysgol.

A dweud y gwir, roedd fy chwaer yn mynd i'r ysgol Gymraeg am tua blwyddyn, ond penderfynodd fy nhad bod hynny'n amharu ar ei sgiliau Saesneg, felly dyna ddiwedd hynny.

Beth bynnag, ar ôl ysgol symudais i Lundain am ychydig o flynyddoedd, ac yna i Gaerdydd am tua phum mlynedd. Roeddwn i'n casáu Llundain, ond wrth fy modd yn byw yng Nghaerdydd. Dechreuais weithio i gwmni gwin yno ar Wellfield Road, Y Rhath.

Roeddwn i wrth fy modd gyda'r swydd, ac ar ôl ychydig fe wnaethon nhw gynnig dyrchafiad i mi, felly symudais i Henffordd am flwyddyn, yna i Fryste wedyn Plymouth ac ati. Yn y diwedd, cyrhaeddais i Gaerwysg a hoffais y lle gymaint nes i aros. Wnes i ddim penderfynu aros mewn gwirionedd, roeddwn i bob amser yn meddwl y byddwn i'n dod yn ôl i Gymru, i Gaerdydd neu efallai i Borthcawl, ond nes i ddim. Arhosais i yma yng Nghaerwysg. Beth ddwedodd John Lennon am fywyd sy'n rhywbeth sy'n digwydd i chi pan fyddwch chi'n gwneud rhywbeth arall?

Ta beth, ro'n i wastad yn difaru methu siarad Cymraeg, ond roedd fy nghyfleoedd i'w dysgu yn gyfyngedig, dim ond hunan-astudio - dilyn llyfrau, wedyn apiau fel Duolingo. Roedd yn iawn, ond dim yn helpu fi siarad yr iaith. Roedd technoleg yn ei gwneud hi'n haws, ond roedd rhywbeth ar goll o hyd.

Yna yn 2020 daeth Cofid 19 a'r cyfnod clo ac yn sydyn dyma'r holl ddosbarthiadau Dysgu Cymraeg ar-lein ar gael i bobl fel fi yn Lloegr, ac yn wir ar draws y byd. Dwy'n cofio fy nosbarth ar-lein cyntaf. Roedd gyda thiwtor hynod garedig ac amyneddgar gyda Choleg Castell-nedd. Roeddwn wedi bod yn astudio gyda Duolingo ers tua blwyddyn ac wedi cwblhau pob un o'r lefelau ar yr ap. Ond pan es i fy nosbarth Cymraeg ar-lein cyntaf, nag oeddwn i'n gallu dweud dim byd.

Yn ffodus, roedd un o'r cyd-ddysgwyr yn y dosbarth yn argymell Say Something in Welsh (SSIW), felly nes i roi cynnig arni a ffeindiais i ei fod yn gweithio'n wych i fi. Wedyn, nes i drio mas llawer o ffyrdd gan gynnwys dosbarthiadau ffurfiol ar-lein gyda Choleg Gwent, darllen e-byst Lingo 360, gwrando ar Radio Cymru cymaint â phosib. Gyda llaw Tudur Owen yn bendant yw'r comic mwyaf doniol dwi erioed wedi clywed, er dim

ond tua 20 y cant dwi'n deall o beth mae'n ddweud. Oce, deg y cant!

Mae S4C ar-lein trwy Clic yn wych hefyd. Cymaint o raglenni gwych ar gyfer pob diddordeb. Dw i newydd ddechrau gwylio'r ail gyfres o Bariau. Wow! Beth bynnag, mae dysgu Cymraeg wedi bod yn brofiad anhygoel i fi, yn newid bywyd a dweud y gwir mewn ffyrdd na allwn i fod wedi dychmygu. Treuliais yr haf diwethaf yn gweithio i Brifysgol Abertawe yn dysgu Saesneg fel iaith dramor, dwi'n meddwl roedd cael y Gymraeg ar fy CV yn sicr wedi helpu.

Pan o'n i yn Abertawe, o'n i'n cyfarfod yn amyl gyda chriw o ddysgwyr a siaradwyr mewn tafarn "Noahs Arc" yn Uplands. Wel, roedd hynny'n brofiad gwych, i sgwrsio gyda phobl eraill dros beint, gwydraid o win neu baned - ffordd hollol naturiol i ddysgu/gwella'r iaith.

Nes i hyd yn oed ddechrau Clwb Clebran yng Nghaerwysg, felly os ydych chi'n digwydd bod yn Nyfnaint ac eisiau ymarfer Cymraeg, dewch i'n grŵp, sy'n cyfarfod Nos Fercher 18:00-20:00 yn Pixy's ar Gandy Street.

Diolch, a hwyl am y tro!

## ROBAT POWELL YN Y CYLCH CINIO

-DAFYDD WILLIAMS

Y bardd cadeiriol Robat Powel oedd gwestai Cylch Cinio Abertawe yng nghyfarfod olaf y tymor.

Swynodd Robat ei gynulleidfa gyda'i araith am bedwar o englynion gan ein beirdd enwocaf.



## NEWYDDION YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

### CYNRYCHIOLI CYMRU

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Llongyfarchiadau mawr i Ashley Griffiths o flwyddyn 12 sydd wedi cynrychioli Cymru dan 17 wrth chwarae pêl-droed. Ym mis Mawrth cafodd Ashley deithio i Borge yn Ffrainc. Y bwriad oedd chwarae tair gêm - yn erbyn ffrainc, Yr Alban a Slofacia. Chwaraeodd Ashley yn y gêm gyntaf yn erbyn Ffrainc ond yn anffodus derbyniodd anaf gan fethu'r ddwy gêm arall. Profiad gwerth chweil fodd bynnag, ac mae Ashley yn edrych mlaen i wylio merched Cymru yn y Swistir yr haf hwn tra'n gwella o'i hanaf.



### CANU GYDA ED SHEERHAN

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Ym mis Ionawr cafodd Ifan Saunders o flwyddyn 12 y profiad anhygoel o ganu gyda Ed Sheeran. Mae Ifan yn rhan o Only Boys Aloud, a roedd y côr yn perfformio yn Ysgol Fitzalan yng Nghaerdydd er mwyn dathlu llwyddiant diweddar yr ysgol mewn arolygiad gan Estyn. Roedd y bechgyn wedi cael gwybod bod rhyw seren enwog yn dod i berfformio gyda nhw er speth amser a wedi treulio dau fis yn dyfalu pwy allai fod. Gydag ychydig funudau o rybudd cawson nwh wybod eu bod am berfformio o flaen Ed Sheeran! Roedd yn brofiad anhygoel iddyn nhw. Yna cawson nhw wrando arno yn canu dwy gân. Yn dilyn ei lwyddiant yn cael ei dderbyn i Academi Only Boys Aloud y llynedd mae Ifan newydd glywed iddo fod yn llwyddiannus eto eleni. Mae clyweliadau blynyddol i unrhyw rai sydd eisoes yng Nghôr Only Boys Aloud sydd â diddordeb mewn ymuno ag Academi OBA ac sydd rhwng 16 ac 19 oed. Bob blwyddyn, mae 32 o ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn un o'r lleoedd hynod boblogaidd ar y cwrs preswyl unigryw hwn. Mae Ifan felly am fod yn un o'r criw dethol lwcus fydd yn derbyn hyfforddiant cerddorol cyffredinol fel grŵp, gwersi canu unigol a hyfforddiant canu uwch gan hyfforddwyr proffesiynol, ynghyd â pherffeithio repertoire arferol OBA. Gwych Ifan a phob dymuniad da!



### YSGOLORIAETHAU I ABERYSTWYTH

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Llongyfarchiadau mawr i Darcy Davies, Isobel Gough ac Oliver Williams am ennill ysgoloriaethau i Brifysgol Aberystwyth. Bydd Darcy yn mynd i astudio Seicoleg, Oliver yn mynd i astudio Y Cyfryngau a Chyfathrebu ac Isobel yn mynd i astudio Bioleg. Mae Isobel hefyd wedi derbyn Ysgoloriaeth Evan Morgan sy'n cael ei roi i fyfyrwyr sydd am astudio'r Gwyddorau Naturiol drwy'r Gymraeg. Da iawn chi'ch tri!



## CYSTADLU YN SWEDEN

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Llongyfarchiadau mawr i Chloe Lewis o flwyddyn 13 a Caian ei brawd o flwyddyn 9 am eu llwyddiant ddiweddar yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Karate Sweden. Daeth Chloe yn drydydd o dan 21ain! Llwyddiant arbennig. Bydd y ddau ohonynt yn teithio i Wlad Belg a'r Almaen i gystadlu yn nes mlaen eleni.





## SIOE IEUENCTID EISTEDDFOD YR URDD

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Llongyfarchiadau enfawr i Hari James, Keira Hopkins, Ifan Saunders a Hannah Thomas sydd wedi derbyn prif rannau yn sioe Dal Dy Dir – sioe ieuenctid Eisteddfod Dur a Môr 2025. Mae Keira wedi derbyn rol Awen, bydd Ifan a Hannahy n chwarae ei rhieni a Hari syddw edi derbyn rol Gwilym, cariad Awen. Pob dymuniad da i'r pedwar ohonyn nhw. Bydd y sioe yn cael ei pherfformio ar nos Fawrth wythnos yr Eisteddfod felly cadw'ch olwg am newyddion am y tocynnau!

## RAS 10K GORSEINON

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Ar Ebrill y 6ed roedd ras 10k Gorseinon. Eleni roedd elusen Morgan's Army, sy'n gyfrifol am y ras, wedi gwahodd Sefydliad Jacob Crane i fod yn rhan ohono. Gwych oedd gweld criw o ddisgyblion y chweched yn rhedeg, (a Mr Chris Shaw!) a chriw o staff yn cefnogi ar y pwynt hanenr ffordd gan gynnig dŵr! Codwyd dros £15000 I'r ddau achos arbennig hwn.

# NEWYDDION YSGOL GYFUN GŴYR

## Y SGWRS FAWR YN AMGUEDDFA'R GLANNAU, ABERTAWE

Ar ddydd Mawrth, 25 Mawrth, cynhaliwyd digwyddiad arbennig o'r enw "Y Sgwrs Fawr" yn Amgueddfa'r Glannau, Abertawe. Cafodd y digwyddiad ei drefnu gan Gyngor Abertawe ac roedd yn gyfle gwerthfawr i bobl ifanc leisio eu barn am faterion sy'n effeithio arnynt.

Ffocws y tymor hwn oedd bod y gorau y gallwch fod – pwnc pwysig sy'n chwarae rhan allweddol ym mywydau pobl ifanc heddiw. Roedd sesiynau difyr, addysgiadol a rhyngweithiol wedi'u cynllunio i annog trafodaeth agored a chodi ymwybyddiaeth.

Mynychodd pedwar aelod o Gyngor Ysgol Ysgol Gyfun Gwyr, ac roedd y profiad yn un ysbrydoledig. Mwynhawyd llu o weithgareddau hwyliog, a dysgwyd gwersi gwerthfawr ar sut i ofalu am ein lles ein hunain a helpu eraill.

Roedd "Y Sgwrs Fawr" yn ddigwyddiad a roddodd lwyfan i leisiau ifanc ac annog newid cadarnhaol. Roedd hyn yn adlewyrchu egwyddorion Erthygl 29 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC), sy'n nodi bod gan bob plentyn hawl i addysg sy'n helpu i ddatblygu ei bersonoliaeth, ei dalentau a'i alluoedd corfforol a meddyliol i'w llawn botensial.






# NEWYDDION MENTER IAITH ABERTAWE

## NOSON LANSIO NOFEL JON GOWER


Ar nos Fawrth y 13eg o Fai bydd lansiad llyfr arbennig yn Nhŷ Tawe er mwyn lansio nofel newydd Jon Gower! Ymuna gyda ni ar gyfer noson arbennig!

📅 13.5, 7yh
📍 Tŷ Tawe

AM DDIM! Does dim angen archebu o flaen llaw. Bar yn agor am 19:00 gyda'r digwyddiad yn dechrau'n fuan wedi hynny.












Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Mai.
Menter Iaith Abertawe sydd yn coladu straeon Wilia.
Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Mehefin erbyn Mai 30ain trwy ebostio Anys at:
**datblygu@menterabertawe.org**
Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG Dysgu Learn

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government